Archwilio Cymru
Audit Wales

# Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r ddogfen hon yn pdf rhyngweithiol

I lywio drwy'r ddogfen defnyddiwch y botymau ar ochr dde'r dudalen a'r dolenni wedi'u marcio â thestun wedi'i danlinellu

Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
COVID-19
Proses
Yn ôl Nesaf

# Negeseuon allweddol

Ers i ni adrodd ar y Fenter Twyll Genedlaethol ddiwethaf ym mis Hydref 2018, mae deilliannau â gwerth o £8 miliwn wedi cael eu cofnodi. Mae deilliannau cronnus y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru ers 1996 bellach yn £42.9 miliwn. Ledled y DU, mae cyfanswm cronnus deilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol bellach yn £1.93 biliwn.

Mae deilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru wedi cynyddu £2.7 miliwn i £8 miliwn yn ymarfer 2018-20. Deilliodd y cynnydd hwn o'r ffaith bod awdurdodau lleol wedi dod yn fwy rhagweithiol o ran canslo hawliadau anghymwys am Ddisgownt Person Sengl y Dreth Gyngor.

Mae rhannu data'n ei gwneud yn bosibl paru data rhwng cyrff ac ar draws ffiniau gwledydd. Fe wnaeth data a gyflwynwyd gan gyrff yng Nghymru ar gyfer ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-2020 helpu sefydliadau eraill mewn rhannu eraill o'r DU i ganfod 94 o achosion o dwyll a gwallau gyda deilliannau gwerth £125,000.

Er bod y mwyafrif o gyfranogwyr yn y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru'n dangos ymrwymiad cryf i atal twyll ac i'r Fenter Twyll Genedlaethol, fel a nodais yn fy adroddiad diweddar ar drefniadau atal twyll ledled Cymru, nid yw rhai cyrff yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll ac nid ydynt yn sicrhau bod digon o adnoddau o ran staff medrus yn eu lle i ymchwilio i bariadau, atal twyll a chywiro gwallau.

Mae pandemig COVID-19 wedi achosi heriau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus wrth i gyrff geisio darparu gwasanaethau ar gyfer unigolion, cymunedau a busnesau ar adeg eithriadol o anodd. Ers dechrau'r pandemig, mae'r risg o dwyll wedi cynyddu wrth i sefydliadau ddod o dan bwysau ac wrth i reolaethau a threfniadau llywodraethu newid.

Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
COVID-19
Proses
Yn ôl Nesaf

## Argymhellion

Dylai'r holl gyfranogwyr yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol sicrhau eu bod yn cynyddu manteision eu cyfranogiad i'r eithaf. Dylent ystyried a yw'n bosibl gweithio'n fwy effeithlon ar bariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol trwy adolygu'r adran gyfarwyddyd yng nghymhwysiad gwe diogel y Fenter Twyll Genedlaethol.

Dylai pwyllgorau archwilio, neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny, a swyddogion sy'n arwain y Fenter Twyll Genedlaethol adolygu rhestr wirio hunanarfarnu'r Fenter Twyll Genedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn meddu ar wybodaeth lawn am waith cynllunio a chynnydd eu sefydliad yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-22.

Lle mae archwilwyr lleol wedi nodi meysydd penodol lle gellid gwneud gwelliannau, dylai'r cyrff cyhoeddus weithredu ar y rhain cyn gynted â phosibl.

Dylai'r holl gyfranogwyr fod yn ymwybodol o risgiau o dwyll sy'n dod i'r amlwg, e.e. oherwydd COVID-19, a chymryd camau priodol i'w hatal a'u canfod.

Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

COVID-19

Proses

# Deilliannau

## Deilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol

Ymarfer atal twyll ar draws y sector cyhoeddus yn y DU sydd wedi'i fwriadu i atal a chanfod twyll yw'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn defnyddio prosesau rhannu a pharu data i helpu i gadarnhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu ar gyfer y bobl gywir.

Mae deilliant o ganlyniad i'r Fenter Twyll Genedlaethol yn disgrifio'r symiau ar y cyfan ar gyfer twyll, gordaliadau a gwall a ganfuwyd gan ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol ac amcangyfrif o golledion yn y dyfodol y mae'n eu hatal.

Cofnododd y Fenter Twyll Genedlaethol ddeilliannau o £8.0 miliwn yn 2018-20.

**Deilliannau cronnus y Fenter Twyll Genedlaethol yn y DU ers 2006**

**£1.93 biliwn**

**Deilliannau cronnus y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru ers 2006**

**£42.9 miliwn**

**Deilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol ledled y DU o ymarfer 2018-20**

**£244.7 miliwn**

**Deilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru o ymarfer 2018-20**

**£8 miliwn**

Ceir cefndir y Fenter Twyll Genedlaethol yn Atodiad 1

Yn ôl Nesaf

Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

COVID-19

Proses


Yn ôl Nesaf

## Tueddiadau mewn deilliannau

Mae deilliannau yng Nghymru wedi cynyddu £2.7 miliwn i £8 miliwn yn ymarfer 2018-20. Digwyddodd hyn er na chafodd data mewnfudo'i gynnwys yn ymarfer 2018-20 oherwydd cyfyngiadau a osodwyd arno gan y Swyddfa Gartref yn dilyn yr adolygiad o drin cenhedlaeth Windrush. Cynyddodd y deilliannau am fod llawer o awdurdodau lleol Cymru wedi dod yn fwy rhagweithiol o ran adolygu pariadau rhwng Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor a'r gofrestr etholiadol.

Mae bod â llai o bariadau'n darparu peth sicrwydd nad oes problemau arwyddocaol yn ôl pob golwg yn y meysydd a gwmpaswyd gan yr ymarfer. Fodd bynnag, mae cyfranogwyr yn dal i gael budd o'r effaith ataliol y mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ei chreu.

Cynyddodd deilliannau yng Nghymru i £8.0m yn ymarfer 2018-20




Yn sgîl gwall o ran y fformiwla yn system gyfrifiadurol y Fenter Twyll Genedlaethol, cafodd deilliannau pensiynau yn ymarfer 2016-18 eu gorddatgan o £0.1 miliwn. Mae ffigwr deilliannau 2016-18 wedi cael ei addasu'n briodol yn y siart uchod.

Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau


COVID-19

Proses

Yn ôl Nesaf

# Sut y mae'r deilliannau diweddaraf yn cymharu â'r ymarfer diwethaf

Mae deilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru **wedi cynyddu £2.7 miliwn** i **£8 miliwn** yn ymarfer 2018-20 fel a ddangosir yn y graff.



Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

COVID-19

Proses

Yn ôl Nesaf

## Fe wnaeth saith maes ddwyn bron i 98% o'r deilliannau

Mae'r meysydd a ddygodd y mwyaf o ddeilliannau o'r ymarfer cyfredol fel a ganlyn:

| Categori | £ | Achosion |
|---|---|---|
| Disgownt y dreth gyngor | £4.6m | 3939 |
| Bathodynnau glas | £1.4m | 2354 |
| Budd-dal tai | £1.2m | 179 |
| Pensiynau | £0.3m | 10 |
| Rhestrau aros | £0.2m | 74 |
| Cartrefi gofal preswyl | £0.2m | 11 |
| Cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor | £0.1m | 11 |

Unwaith y mae gordaliadau wedi cael eu hadnabod, gall cyrff cyhoeddus gymryd camau priodol i adfer yr arian. Yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2020, roedd 83% o'r gordaliadau wedi cael eu hadfer neu yn y broses o gael eu hadfer.

# Canlyniadau

## Disgowntiau'r dreth gyngor


Mae pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain, neu heb unrhyw oedolion y gellir eu cyfrif yn yr un aelwyd, yn gymwys i gael disgownt person sengl (DPS) o 25 y cant ar eu bil treth gyngor blynyddol.

Caiff data'r DPS ei baru â data'r gofrestr etholiadol i helpu i ganfod achosion lle mae pobl yn cael y disgownt, ond heb iddynt fod yr unig oedolyn y gellir ei gyfrif yn eu cartref.


Canfu ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-20 cyfanswm o £4.6 miliwn mewn disgownt treth gyngor a oedd wedi'i ddyfarnu'n anghywir ar draws cynghorau Cymru. Mae hyn yn ddeilliant cyfartalog o £1,003 ar gyfer pob achos (£998 yr achos yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2016-18). Fe arweiniodd adolygiad o bariadau data'r Fenter Twyll Genedlaethol at ganslo 3,939 o hawliadau DPS.

Digwyddodd y cynnydd mewn deilliannau'n bennaf am bod awdurdodau lleol wedi dod yn fwy rhagweithiol o ran ymchwilio i'r pariadau.

Deilliannau o **£4.6 miliwn** yn 2018-20




**4,588 o achosion** yn 2018-20



Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
COVID-19
Proses
Yn ôl Nesaf



## Astudiaeth Achos: Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor

### Cyngor Bro Morgannwg

Mae gan y Cyngor ddull rhagweithiol a chynhwysfawr o adolygu pariadau sy’n ymwneud â disgownt y Dreth Gyngor yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae’r holl bariadau’n cael eu hadolygu ar y cyfle cyntaf. Mae pariadau newydd yn cael eu gwirio yn erbyn pariadau’r Fenter Twyll Genedlaethol o ymarferion blaenorol i ddileu achosion yr ymdriniwyd â hwy cyn rhyddhau’r pariadau newydd. Wedyn caiff yr holl bariadau sy’n weddill eu hadolygu yn erbyn systemau mewnol y Cyngor i geisio canfod statws aelwyd cyfredol yr hawlydd. Lle na ddoir o hyd i unrhyw amgylchiadau lliniarol ar gyfer yr aelwyd ar systemau’r Cyngor, anfonir llythyrau at hawlyddion yn gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth o’u hawl. O ganlyniad i’r cam gweithredu hwn yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-20 mae’r Cyngor hyd yma wedi canslo 175 o hawliadau ac wedi canfod gordaliadau y gellir eu hadfer o £112,523. Mae’r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn ymchwilio i 400 o achosion eraill.

Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
COVID-19
Proses
Yn ôl Nesaf

## Pensiynau

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn rhoi ffordd effeithlon ac effeithiol i gynghorau sy'n gweinyddu pensiynau allu gwirio mai dim ond i bobl sy'n fyw y maent yn talu.

Canfu'r ymarfer 10 achos lle'r oedd taliadau pensiynau wedi parhau i gael eu gwneud ar ôl i bensiynwyr farw.


Ar y cyfan, mae deilliannau pensiynau ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-20 yn £0.26 miliwn. Mae hyn yn cyfateb i ddeilliant cyfartalog o £26,000 am bob achos.

Mae hyn yn ostyngiad o £0.59 miliwn o'i gymharu ag ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2016-18.

Mae deilliannau pensiynau wedi gostwng yn sgîl y ffaith bod y broses hysbysu 'dywedwch wrthym unwaith' wedi ennill ei phlwyf yn fwy dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae deilliannau pensiynau ledled y DU wedi gostwng 59 y cant o £136.9 miliwn yn 2016-18 i £55.5 miliwn yn 2018-20.

Deilliannau o **£0.26 miliwn** yn 2018-20




Yn sgîl gwall o ran y fformiwla yn system gyfrifiadurol y Fenter Twyll Genedlaethol, cafodd deilliannau pensiynau yn ymarfer 2016-18 eu gorddatgan o £0.1 miliwn. Mae'r ffigwr wedi cael ei addasu'n briodol yn y siartiau uchod.

Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

COVID-19

Proses

Yn ôl Nesaf

## Astudiaeth Achos: Pensiynau

### Cyngor Caerdydd

Aeth y Cyngor ati'n rhagweithiol i adolygu pariadau rhwng pensiynau sy'n cael eu talu a phobl ymadawedig. Roedd un pariad yn dynodi bod aelod o'r cynllun pensiwn wedi marw yn ystod mis Tachwedd 2016. Erbyn archwilio cofnodion y Cyngor canfuwyd fod y derbynnydd wedi symud i ffwrdd o ardal y Cyngor cyn eu marwolaeth. Cadarnhaodd yr ymchwiliwr ddyddiad marwolaeth yr aelod o'r cynllun pensiwn a bod £8,504 wedi cael ei dalu i mewn i gyfrif banc yr aelod o'r cynllun ers dyddiad y farwolaeth. Daeth yr ymchwiliwr o hyd i wybodaeth am unigolyn a oedd ag Atwrneiaeth. Cynhaliodd y Cyngor ymweliadau â chartref yr unigolyn a oedd ag Atwrneiaeth ac fe anfonodd lythyrau at yr unigolyn i geisio canfod beth oedd yr amgylchiadau a oedd wedi arwain at y gordaliad. Ni chafwyd ymateb gan yr unigolyn. Fe gysylltodd yr ymchwiliwr â banc y diweddar aelod o'r cynllun pensiwn a chanfu nad oedd y taliadau pensiwn wedi cael eu tynnu allan o gyfrif banc yr aelod o'r cynllun. Mae'r Cyngor yn y broses o adfer y gordaliad.



Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
COVID-19
Proses
Yn ôl Nesaf

## Budd-daliadau tai


Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn rhoi cyfle i gynghorau a'r Adran Gwaith a Phensiynau ganfod ystod eang o achosion o dwyll a gwallau sy'n ymwneud â budd-daliadau.

Caiff data budd-daliadau tai ei baru â data benthyciadau i fyfyrwyr, cyflogresi, budd-daliadau tai, tenantiaid tai, trwyddedau, pobl ymadawedig ac Amberhill i helpu i ganfod hawliadau anghymwys.

Mae gwerth a nifer yr achosion budd-dal tai y cofnodwyd gordaliadau ar eu cyfer wedi codi o £0.6 miliwn (169 o achosion) yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2016-18 i £1.2 miliwn (179 o achosion) yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-20.

Er mai dim ond cynnydd bach a fu yn nifer yr achosion o fudd-daliadau, mae gwerth cyfartalog y gordaliadau ym mhob achos wedi codi o £3,781 yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2016-18 i £6,496 yn 2018-20.

Deilliannau o **£1.2 miliwn** yn 2018-20



Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
COVID-19
Proses
Yn ôl Nesaf

## Astudiaeth Achos: Budd-daliadau tai

### Cyngor Sir Gaerfyrddin

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cydnabod pwysigrwydd y Fenter Twyll Genedlaethol o ran gwarchod pwrs y wlad rhag risgiau o dwyll ac yn defnyddio’r Fenter Twyll Genedlaethol i roi cymorth i ganfod ac atal twyll. Canfu ymarfer 2018-20 138 o bariadau rhwng Budd-daliadau Tai a benthyciadau i fyfyrwyr. Fe ystyriodd y Cyngor wirio dim ond pariadau a oedd wedi’u nodi fel rhai risg uchel i ddechrau, ond yn seiliedig ar ganlyniadau cadarnhaol mewn blynyddoedd blaenorol tybiodd y byddai o fudd estyn y broses wirio y tu hwnt i’r achosion risg uchel. Arweiniodd yr adolygiad o’r pariadau at 12 o ymchwiliadau i dwyll, lle canfuwyd fod yr hawlyddion budd-daliadau wedi methu â datgan eu bod yn cael cyllid myfyrwyr/benthyciadau i fyfyrwyr. Fe arweiniodd yr achosion hyn at ordalu gwerth mwy na £34,000 mewn budd-daliadau. Mae’r Cyngor wedi adfer y gordaliadau, neu mae yn y broses o’u hadfer trwy ddidyniadau o daliadau budd-daliadau parhaus.

Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
COVID-19
Proses
Yn ôl Nesaf

## Bathodynnau glas


Mae'r cynllun parcio bathodynnau glas yn caniatáu i bobl â phroblemau symudedd barcio am ddim wrth fesuryddion parcio ar y stryd, mewn cilfachau talu ac arddangos, mewn mannau a neilltuwyd ar gyfer deiliaid bathodynnau glas, ac ar linellau melyn sengl neu ddwbl dan rai amgylchiadau.

Caiff data bathodynnau glas ei baru â data ar bobl ymadawedig a data Amberhill.

Mae bathodynnau'n cael eu defnyddio neu eu hadnewyddu'n amhriodol gan bobl weithiau ar ôl i ddeiliad y bathodyn farw. Mae'n drosedd i rywun diawdurdod ddefnyddio bathodyn glas.

Arweiniodd ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-20 at ganslo 2,354 o fathodynnau glas yng Nghymru. Mae nifer y bathodynnau a ganslwyd wedi cynyddu ym mhob un o ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol ers y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2012-14.

**2,354** o ddeilliannau yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-20



Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
COVID-19
Proses
Yn ôl Nesaf

## Rhestrau aros ar gyfer tai


Y nod o ran bod y Fenter Twyll Genedlaethol yn defnyddio data rhestrau aros ar gyfer tai yw canfod achosion posibl o dwyll rhestrau aros. Mae hyn yn digwydd pan fo unigolyn wedi cofrestru ar y rhestr aros ond bod newidiadau posibl sydd heb eu datgelu yn ei amgylchiadau neu wybodaeth anwir wedi cael ei darparu. Roedd hon yn set ddata newydd ar gyfer ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2016-18.

Caiff data rhestrau aros ar gyfer tai ei baru â data rhestrau aros, budd-dal tai, tenantiaid tai, pobl ymadawedig ac Amberhill.

Canfu cynghorau 74 o achosion lle cafodd ymgeiswyr eu tynnu oddi ar restrau aros.

Mae gwerth amcangyfrifedig yr achosion hyn yn £0.24 miliwn yn seiliedig ar gyfrifo cost amcangyfrifedig flynyddol cartrefu teulu mewn llety dros dro a'r tebygolrwydd y byddai eiddo'n cael ei ddarparu ar gyfer ymgeisydd ar restr aros.

Deilliannau o **£0.24 miliwn** yn 2018-20



Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
COVID-19
Proses
Yn ôl Nesaf

## Credydwyr

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn darparu ffordd effeithlon o wirio am daliadau dyblyg ac mai dim ond i gredydwyr priodol y gwneir taliadau.

Caiff data ar gredydwyr ei baru â data ar gredydwyr a data cyflogresi.

Mae ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-20 wedi arwain at 53 o ddeilliannau credydwyr o £0.1 miliwn o'i gymharu â 61 o ddeilliannau gwerth £0.2 miliwn yn 2016-18. Mae camau adfer yn mynd rhagddynt ar gyfer 100% o'r gordaliadau hyn.

Mae deilliannau credydwyr wedi gostwng dros ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol gan bod cyrff sy'n cyfranogi wedi gwella'r rheolaethau o fewn eu systemau mewnol.

Deilliannau o **£0.1 miliwn** yn 2018-20



Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

COVID-19

Proses

Yn ôl Nesaf

# Taliadau i gartrefi gofal preswyl



Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn adnabod achosion lle mae preswylydd mewn cartref gofal wedi marw, ond bod yr awdurdod lleol heb gael ei hysbysu o bosibl ac felly'n parhau i wneud taliadau.


Caiff data ar gartrefi gofal preswyl ei baru â data ar bobl ymadawedig a data Amberhill.

Mae cynghorau wedi canfod 11 o achosion o ordaliadau gwerth £0.16 miliwn i ddarparwyr gofal ar gyfer pobl sydd wedi marw.


Roedd gwerth cyfartalog pob achos yn £14,545.

Mae 93% o'r gordaliadau wedi neu wrthi'n cael eu hadfer.

Nifer yr achosion o daliadau i gartrefi gofal preswyl preifat ar gyfer preswylwyr ymadawedig




Deilliannau o **£0.16 miliwn** yn 2018-20



Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

COVID-19

Proses

Yn ôl Nesaf

## Gostyngiadau'r dreth gyngor

Mae gostyngiadau'r dreth gyngor yn helpu'r rhai ar incwm isel i dalu eu biliau treth gyngor.

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn rhoi'r cyfle i gynghorau adnabod ystod o achosion o dwyll a gwallau sy'n ymwneud â'r dreth gyngor.


Caiff data ar ostyngiadau'r dreth gyngor ei baru â data gostyngiadau'r dreth gyngor, cyflogresi, cyflogresi pensiynau, budd-daliadau tai, tenantiaid tai, trwyddedau, pobl ymadawedig ac Amberhill.

Ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2016-18 oedd y tro cyntaf i setiau data gostyngiadau'r dreth gyngor gael eu cynnwys yn y Fenter Twyll Genedlaethol.

Canfuwyd deilliannau o £0.13 miliwn yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-20 a chafodd hawliadau am ostyngiadau'r dreth gyngor eu diwygio neu eu canslo mewn 90 o achosion.

Roedd gwerth cyfartalog pob achos yn £1,457 o'i gymharu â £1,887 yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2016-18 sy'n awgrymu bod twyll a gwallau'n cael eu canfod yn gynharach.

Deilliannau o **£0.13 miliwn** yn 2018-20



Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
COVID-19
Proses
Yn ôl Nesaf

# COVID-19

## Risgiau o dwyll sy'n gysylltiedig â COVID-19

Mae pandemig COVID-19 wedi dwyn heriau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus wrth i gyrff geisio parhau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer unigolion, cymunedau a busnesau mewn cyfnod eithriadol o anodd. Mae hyn yn cynnwys risgiau ychwanegol o dwyll y bydd yn bwysig i gyrff cyhoeddus eu canfod a'u rheoli.

Mae llywodraethu da a rheolaethau cadarn yn hanfodol mewn sefyllfa argyfyngus o'r fath.

Mae'r risgiau'n cynnwys y canlynol, ond nid y rhain yn unig:

- Mae llawer o gyrff yn y sector cyhoeddus wedi bod yn cydweithio er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r risgiau hyn trwy baru data a rhannu gwybodaeth. Cynllunir gweithgarwch sicrwydd ychwanegol hefyd gan lawer o gyrff y sector cyhoeddus unwaith y bydd argyfwng COVID-19 ar ben.
- Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi bod yn gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet er mwyn hybu'r defnydd o baru data fel modd i atal twyll sy'n gysylltiedig â COVID-19.
- Mae cyfleusterau i ganiatáu i gynghorau gynnal gwiriadau ychwanegol ar gyfrifon banc a statws cwmnïau mewn perthynas â grantiau cymorth busnes wedi cael eu cyflwyno i'r cyrff yng Nghymru sy'n cyfranogi yn y Fenter Twyll Genedlaethol.

**pecynnau ysgogi'r Llywodraeth i gefnogi unigolion a busnesau'n cael eu darparu'n gyflym gyda lefel is o graffu a diwydrwydd dyladwy nag a fu'n flaenorol ar gyfer cynlluniau tebyg**

**cynnydd mewn negeseuon e-bost gwe-rwydo a sgiamau sy'n ceisio temtio staff sy'n gweithio dan bwysau i glicio ar ddolenni sy'n galluogi twyllwyr i gael mynediad at systemau'r sector cyhoeddus**

**cynnydd mewn seiberdroseddu wrth i fwy o staff y sector cyhoeddus gysylltu o bell**

**staff y sector cyhoeddus yn gweithio dan bwysau eithafol**

**staff y sector cyhoeddus yn gweithio o bell**

# Proses

## Pariadau sydd o fudd i gyrff cyhoeddus eraill

Un o fanteision allweddol ymarfer paru data ledled y DU gyfan yw ei fod yn ei gwneud yn bosibl paru data rhwng cyrff ac ar draws ffiniau gwledydd. Fe wnaeth data a ddarparwyd gan gyfranogwyr o Gymru ar gyfer ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-20 helpu cyrff cyhoeddus eraill y tu allan i Gymru ganfod deilliannau gwerth bron i £125,000.

| Sector y data gwreiddiol | £ | nifer y deilliannau |
|---|---|---|
| Awdurdodau lleol | 99,552 | 76 |
| GIG | 24,538 | 17 |
| Tân | 898 | 1 |
| **Cyfanswm** | **124,989** | **94** |

Mae'r rhan fwyaf o'r deilliannau hyn yn ymwneud â budd-daliadau tai, rhestrau aros ar gyfer tai a gostyngiadau'r dreth gyngor lle, er enghraifft, gall data o gyflogres bwrdd iechyd alluogi cyngor i ganfod gordaliad budd-dal tai.

Ar gyfer y cyrff cyhoeddus hynny sy'n cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol nad ydynt o bosibl yn canfod deilliannau arwyddocaol o'u pariadau hwy eu hunain, mae'n bwysig deall y gall cyrff a sectorau eraill wneud hynny.

Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

COVID-19

Proses

Yn ôl Nesaf

## Sut y mae cyrff yn gweithio gyda'r Fenter Twyll Genedlaethol

Mae llwyddiant y Fenter Twyll Genedlaethol yn ddibynnol ar natur ragweithiol ac effeithiolrwydd cyrff sy'n cyfranogi o ran ymchwilio i'r pariadau data.

Fe wnaeth y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru a gyfranogodd reoli eu rolau yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-20 yn dda.

Fodd bynnag, gallai rhai cyrff fod yn llawer mwy rhagweithiol o ran eu dull o ymwneud â'r Fenter Twyll Genedlaethol. Yn arbennig, ychydig iawn o'r pariadau a gawsant yr aeth rhai awdurdodau lleol ati i'w hadolygu ac, o ganlyniad, nid oeddent yn gwneud digon o waith i fynd i'r afael ag achosion posibl o dwyll. Y rheswm dros hyn oedd eu methiant i ddyrannu digon o adnoddau atal twyll medrus i ymchwilio i bariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol.

Rydym yn argymell bod pob corff yn defnyddio ein rhestr wirio i hunanarfarnu eu hymwneud â'r Fenter Twyll Genedlaethol cyn ac yn ystod ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-22.

## Datblygiadau pellach

- Mae pandemig COVID-19 a'r pecynnau cymorth brys a roddwyd yn eu lle o ganlyniad wedi arwain at fwy o risg o dwyll. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi bod yn gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet i adnabod, datblygu a hyrwyddo cyfleusterau paru data i helpu i fynd i'r afael â pheth o'r risg gynyddol hon o dwyll. Bydd gwaith yn parhau yn y maes hwn i mewn i ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-22.
- Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi gorchymyn pob awdurdod lleol i gyflwyno data ar grantiau cefnogi busnes Covid-19 ar gyfer paru data Menter Twyll Genedlaethol 2020-22 i fynd i'r afael â thwyll yn y maes yma.
- Mae ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-22 bellach yn mynd rhagddi. Mae setiau data wedi cael eu hadolygu ar ôl cyfnod o ymgynghori ac mae cyfranogwyr yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn dechrau cyflwyno data ar gyfer paru.
- Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn parhau i weithio gyda Swyddfa'r Cabinet i ddatblygu ffyrdd newydd o atal a chanfod twyll.
- Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i hybu a gwella cyfranogiad yn y Fenter Twyll Genedlaethol ledled Cymru.


Negeseuon allweddol
Deilliannau
Canlyniadau
COVID-19
Proses
Yn ôl Nesaf

# Atodiad 1 – Cefndir y Fenter Twyll Genedlaethol

Ymarfer atal twyll ar draws sector cyhoeddus y DU sydd wedi'i fwriadu i atal a chanfod twyll yw'r Fenter Twyll Genedlaethol. Yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa'r Cabinet, Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon sy'n arwain yr ymarfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn y drefn honno. Cynhelir y Fenter Twyll Genedlaethol bob dwy flynedd ac mae'n galluogi cyrff cyhoeddus i ddefnyddio technegau paru data cyfrifiadurol i ganfod twyll a gwallau.

Prif ddiben y Fenter Twyll Genedlaethol yw sicrhau bod arian a gwasanaethau'n cael eu darparu ar gyfer y bobl gywir, ond gall y Fenter Twyll Genedlaethol hefyd adnabod unigolion sydd â hawl i wasanaethau neu daliadau ychwanegol, e.e. gall pariadau budd-dal tai adnabod cwsmeriaid sydd â hawl i ddisgownt neu ostyngiadau'r dreth gyngor.

Rydym yn cynnal proses y Fenter Twyll Genedlaethol dan bwerau yn Neddf Archwilio (Cymru) 2004. Mae'n bwysig i'r holl bartïon sy'n cymryd rhan bod yr ymarfer hwn yn cael ei reoli'n iawn a bod data'n cael ei drin yn unol â'r gyfraith. Mae Cod Ymarfer Paru Data'r Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r ddeddfwriaeth a rheolaethau allweddol ar gyfer ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol ac mae ar gael o wefan Archwilio Cymru.



Negeseuon allweddol

Deilliannau

Canlyniadau

COVID-19

Proses

Yn ôl Nesaf

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 sy'n ei rymuso i gynnal ymarferion paru data er mwyn helpu i atal a chanfod twyll yng Nghymru, neu mewn perthynas â Chymru, a chyhoeddi canlyniadau unrhyw ymarfer o'r fath.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Archwilio Cymru yw enw ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n ddau endid cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau archwilio ac adrodd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau darparu adnoddau, megis staff, er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Pan fo hynny'n berthnasol, mae testun y ddogfen hon yn nodi swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru